# Awdurdod Datblygu Cymru

## Adroddiad Ariannol a Chyfrifon 2003/04



Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ein gwlad – trwy helpu busnesau i gychwyn a thyfu, adfywio cymunedau a chreu mwy o gyfleoedd ar gyfer pobl Cymru.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Prif Weithredwr | 9 |
| Datganiad ar y System Rheolaeth Fewnol | 10 |
| Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru | 12 |
| Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfunol | 14 |
| Mantolenni'r Awdurdod a Chyfunol | 16 |
| Datganiad Llif Arian Cyfunol | 18 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 20 |
| Crynodeb Pum Mlynedd | 50 |

# Rhagair

## Cefndir Statudol

Mae Awdurdod Datblygu Cymru (yr Awdurdod) yn gorff cyhoeddus, a sefydlwyd ym 1976 dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd yn benodol gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998). Dan y ddeddfwriaeth hon, gall yr Awdurdod gynnal ystod o weithgareddau a mentrau i gyflawni'i ddibenion.

Dyma'r dibenion:

- gwella datblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru neu unrhyw ran o Gymru ac yn y cyswllt hwnnw, darparu, cynnal neu ddiogelu cyflogaeth;
- hyrwyddo effeithlonrwydd mewn busnes a chystadleuaeth ryngwladol yng Nghymru; a
- gwella'r amgylchedd yng Nghymru ymhellach, gan roi ystyriaeth i amwynderau presennol.

Paratowyd y cyfrifon gan yr Awdurdod yn unol ag Atodlen 3 paragraff 8 Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 ac maent yn cynnwys y cyfnod 1 Ebrill 2003 hyd at 31 Mawrth 2004 ar y ffurf a benderfynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad), gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

Mae copi o gyfeiriad y cyfrifon ar gael i'w arolygu yn swyddfa gofrestredig yr Awdurdod.

Ariennir gweithgareddau'r awdurdod yn rhannol gan y taliadau a wneir gan y Cynulliad, y grantiau a ddarperir gan y Comisiwn Ewropeaidd a hefyd benthyciadau gan y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol.

## Mentrau Atodol a Chysylltiedig

Mae'r cyfrifon hyn yn ymgorffori canlyniadau Cyllid Cymru ccc, is-gwmni dan berchenogaeth lawn yr Awdurdod, a'i is-gwmnïau Buddsoddiadau Cyllid Cymru Cyf, Buddsoddiadau Cyllid Cymru (2) Cyf a Xénos – The Wales Business Angel Network Ltd. Mae'r cyfrifon hyn hefyd yn cynnwys cyfran yr Awdurdod o golled Cronfa Arloesi Cymru Cyf, sef menter corfforedig ar y cyd.

Mae'r cyfrifon hyn hefyd yn ymgorffori canlyniadau Welsh Development Management Limited, is-gwmni arall dan berchenogaeth lawn yr Awdurdod, a'i brif weithgaredd yn ystod y cyfnod oedd darparu gwasanaethau rheoli a gweinyddu i Bartneriaeth Ddiwydiannol Cymru, sef partneriaeth rhwng yr Awdurdod a Royal Bank of Scotland i ymgymryd â datblygiadau eiddo diwydiannol yn ardal Amcan 1 Cymru dros 5 mlynedd.

Mae pob is-gwmni'n paratoi'i gyfrifon am yr un cyfnod cyfrifo â'r Awdurdod, gan ddefnyddio polisïau cyfrifo cyson.

At hynny, mae trafodion wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hyn a wnaethpwyd gan yr Awdurdod yn rhinwedd ei swyddogaeth fel un o dri budd-ddeiliad Cwmni Adfywiad Dinesig Casnewydd, sy'n masnachu dan yr enw Newport Unlimited.

Ceir crynodeb o gyfraniadau'r Awdurdod sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hyn yn nodyn 38.

**Archwilydd**

Caiff cyfrifon yr Awdurdod eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ôl y gofyniad dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Caiff ffioedd Archwilio Allanol eu nodi yn nodyn 9 y cyfrifon hyn.

**Adolygiad o Weithgareddau a Datblygiadau yn y Dyfodol.**

Mae adolygiad o weithgareddau'r Awdurdod a'i gynlluniau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol, ynghyd â'i berfformiad yn erbyn targedau strategol allweddol, wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

Yn ystod y flwyddyn, cymerodd yr awdurdod gyfrifoldeb dros y Gronfa Datblygu Gwybodaeth. Roedd y gronfa'n cael ei rheoli'n flaenorol gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Darperir manylion pellach yn nodyn 37 y cyfrifon hyn.

Mae'r Awdurdod yn wynebu heriau newydd yn gyson ac mae'n cydnabod yn llwyr yr angen i addasu i newidiadau yn ei farchnadoedd domestig a byd-eang i sicrhau y gall ei strwythur a'i weithrediadau gynnal ffocws cwsmeriaid cryf ac effeithiol yn gywir. Felly, yn ystod y flwyddyn, dechreuodd yr Awdurdod ar ymarfer dylunio a datblygu sefydliadol gyda'r nod sylfaenol o gyflwyno gwasanaeth gwell i'w gwsmeriaid.

Ar 6 Mai 2004, cymeradwyodd Bwrdd yr Awdurdod amlinelliad o strwythur sefydliadol diwygiedig, a gafodd ei fynegi i'r staff yn dilyn hynny ar 11 Mehefin 2004. Mae'r Awdurdod yn bwriadu cwblhau'r ymarfer ailstrwythuro yn ystod 2004-05.

Ar adeg arwyddo'r cyfrifon hyn, roedd yr Awdurdod yn methu gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r costau posibl yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r ymarfer hwn. Bydd unrhyw gostau ailstrwythuro i'r Awdurdod yn cael eu datgelu'n llawn yng nghyfrifon 2004-2005.

Ar 14 Gorffennaf 2004 cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru fwriad i ymgorffori°Ør Awdurdod o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn Mis Ebrill 2006. Yn y cyhoeddiad, dywedodd Prif Weinidog Cymru y cedwir parhad gwasanaeth ac anrhydeddu pob grant a chytundeb.

Mae'r cyfrif Incwm a Gwariant Cyfunol yn dangos gormod o wariant dros incwm o £258.8m ar gyfer y flwyddyn, o gymharu â £183.1m ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Ar ôl trosglwyddo'r swm hwn i'w gronfeydd wrth gefn, £284.9m (2003 £262.8m) yw balans y cronfeydd wrth gefn a gariwyd ymlaen.

### Cod Talwyr Prydlon

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i dalu anfonebau a cheisiadau eraill am daliad yn brydlon ac mae'n cymeradwyo'n llwyr egwyddorion y Cod Ymarfer Taliad Gwell a gyhoeddwyd gan yr Adran Masnach a Diwydiant.

Mae yna systemau i fonitro'r cylch talu a chedwir ystadegau i gofnodi perfformiad talu a nodi meysydd y gellir eu gwella.

Yn achos contractau gweithfeydd ac adeiladu, lle mae gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol yn unol â thelerau'r prif gontract, amcan yr Awdurdod yw talu o fewn 30 diwrnod o gyhoeddi tystysgrif ddilys.

Cyflawnwyd hyn ar gyfer 98% o'r holl daliadau o'r fath a wnaed yn 2003-2004. Yn achos nwyddau, gwasanaethau a cheisiadau eraill, lle cafodd y cyflenwad ei gwblhau'n foddhaol, amcan yr Awdurdod yw talu o fewn 30 diwrnod o gael anfoneb neu gais dilys arall am daliad. Cyflawnwyd hyn ar gyfer 95% o'r holl daliadau a wnaed yn 2003-2004.

### Ymrwymiad Cyflogeion

Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w gyflogeion am ddatblygiadau a newidiadau, o fewn y sefydliad a'r rhai y mae'r Awdurdod yn ymwneud â nhw'n allanol.

Mae gwella ei rwydwaith cyfathrebu mewnol yn amcan parhaus, trwy ymrwymiad yr holl staff a chynrychiolwyr y cyflogeion.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ymgynghori â chynrychiolwyr ei staff am yr holl faterion sy'n effeithio ar delerau ac amodau.

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn weithgar. Ceisia sicrhau gweithlu amrywiol ac annog diwylliant lle mae'r holl gyflogeion yn cael eu gwerthfawrogi ac yn

cyfrannu at ein bwriad o gynyddu ffyniant economaidd pobl Cymru.

Bydd yr Awdurdod yn gwneud cyfle cyfartal ac amrywiaeth yn ganolog i'w holl fusnes a'i swyddogaethau. Mae ei weithdrefnau recriwtio a dethol yn ceisio hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin gweithlu amrywiol. Ceisia'r Awdurdod yn weithgar i annog ceisiadau am swyddi gan bobl o grwpiau lleiafrifol.

## Aelodau'r Bwrdd

Gwasanaethodd y bobl ganlynol fel aelodau Bwrdd yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn:

Roger Jones OBE, **Cadeirydd**
Trefor Jones CBE, LL **Dirprwy Gadeirydd**
Graham Hawker CBE, DL **Prif Weithredwr**
Noel Crowley CBE, DL
Gareth Evans
Simon Gibson OBE
Jim Hancock
Margaret Llewellyn OBE
Dr Drew Nelson OBE
Tyrone O'Sullivan OBE
Janet Reed OBE
Yr Athro Mohamed Wahab OBE
David Williams
Dr Ruth Williams

## Diddordebau Aelodau'r Bwrdd

Mae cofrestr o holl ddiddordebau datganedig yr aelodau ar gael i'w harolygu gan swyddfa gofrestredig yr Awdurdod: Tŷ Principality, Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd CF10 3FE.

Caiff trafodion ariannol gyda sefydliadau, y mae aelodau'r Bwrdd wedi datgan diddordeb ynddynt eu dangos yn nodyn 39 y cyfrifon hyn.

## Pwyllgor Archwilio

Gwasanaethodd yr aelodau canlynol o'r Bwrdd ar Bwyllgor Archwilio'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn.

David Williams (Cadeirydd)
Gareth Evans
Trefor Jones CBE, LL
Janet Reed

Penodir y Pwyllgor Archwilio gan Fwrdd yr Awdurdod.

Ei brif ddyletswyddau yw ystyried effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a systemau rheoli risg cyffredinol yr Awdurdod, a sicrhau bod yna brosesau a mecanweithiau digonol yn eu lle ar gyfer asesu a rheoli risg. Mae'n ystyried cwmpas archwiliadau a digonolrwydd ymatebion

rheolwyr i ganfyddiadau adroddiadau archwilio mewnol, ac mae'n cynghori'r Prif Weithredwr am faterion archwilio a chydymffurfiaeth. Mae'n adrodd i'r Bwrdd yn rheolaidd am gyflawni'i swyddogaethau.

**Pwyllgor Tâl a Phenodiadau**
Gwasanaethodd yr aelodau canlynol o'r Bwrdd ar Bwyllgor Tâl a Phenodiadau'r Awdurdod.

Roger Jones OBE (Cadeirydd)
Jim Hancock
Trefor Jones CBE, LL
Dr Ruth Williams

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae ei rôl yn cynnwys: ymgymryd â'r broses recriwtio a dethol ar gyfer swydd y Prif Weithredwr; argymell yr ymgeisydd gorau i Fwrdd yr Awdurdod; pennu targedau perfformiad a thâl y Prif Weithredwr, o fewn y cyfyngiadau a osodwyd gan y Cynulliad a thrwy gontract; a chynghori'r Prif Weithredwr ar benodiadau a thâl staff uwch. Nid yw'r Prif Weithredwr yn aelod o'r Pwyllgor.

Nid yw'r Pwyllgor Tâl a Phenodiadau yn gosod tâl neu delerau eraill cyfarwyddwr anweithredol yr Awdurdod, gan fod hyn yn fater i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Prif Weithredwr a'r swyddogion a benodir ganddo yn penderfynu ar dâl cyflogeion yr Awdurdod, o fewn y cyfyngiadau a osodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Caiff tâl Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a Phrif Weithredwr yr Awdurdod eu datgelu yn nodiadau'r cyfrifon hyn, yn yr un modd â chrynodeb o fanylion tâl a manylion cysylltiedig aelodau eraill y Bwrdd a staff uwch.

**Pwyllgorau Eraill y Bwrdd**
Yn ychwanegol at yr uchod, ceir strwythur o Bwyllgorau'r Bwrdd sy'n delio â materion pwnc a bennir gan y Bwrdd.



**Graham Hawker CBE, DL**
Prif Weithredwr ar ran y Bwrdd
15 Gorffennaf 2004

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Prif Weithredwr

Dan Atodlen 3 paragraff 8 Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd), gofynnir i Awdurdod Datblygu Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt ddangos safbwynt gwir a theg o sefyllfa'r Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i incwm a gwariant a'i lifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae angen i'r Awdurdod:

- arsylwi'r holl ofynion cyfrifo a datgelu perthnasol fel a nodir yn y cyfeiriad cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Cynulliad ac o fewn hynny dewis y polisïau cyfrifo addas a'u defnyddio'n gyson;
- llunio barnau ac amcangyfrifon yn rhesymol;
- datgan a yw'r safonau cyfrifo cymwys wedi'u dilyn a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y datganiadau ariannol;

paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod hi'n amhriodol i dybio y bydd yr Awdurdod yn parhau i weithredu.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifo ar gyfer y Cynulliad wedi penodi Prif Weithredwr Awdurdod Datblygu Cymru fel Swyddog Cyfrifo'r Awdurdod. Fel Swyddog Cyfrifo, mae'n gyfrifol am rheoli'n gywir yr arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano, gan gynnwys eu cysondeb a'u priodoldeb. Rhaid iddo sicrhau bod gweithdrefnau ariannol cywir yn cael eu dilyn, bod y cofnodion cyfrifo'n cael eu cadw ar y ffurf benodedig ar gyfer cyfrifon cyhoeddedig a bod cronfeydd cyhoeddus ac asedau eraill y mae'n gyfrifol amdanynt yn cael eu diogelu. Caiff ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo eu nodi ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifo a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

# Datganiad ar y System Rheolaeth Fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, mae'n gyfrifoldeb arnaf i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod, tra'n diogelu arian ac asedau cyhoeddus yr wyf i'n bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi mewn Cyfrifeg Llywodraeth ac yn Natganiad Rheolaeth a Memorandwm Ariannol yr Awdurdod a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Awdurdod yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, a sefydlwyd dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd). Fel Swyddog Cyfrifo, rwy'n atebol i Fwrdd yr Awdurdod, a benodir gan y Cynulliad, ar gyfer trefn, rheolaeth a staffio cyffredinol yr Awdurdod. Mae trefniadau Rheoli Risg yr Awdurdod wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd yr Awdurdod.

Caiff y peryglon strategol a gweithrediadol allweddol y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu eu dwyn i sylw'r Bwrdd yn rheolaidd.

Bwriad y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion; dim ond sicrwydd effeithiolrwydd rhesymol ac nid sicrwydd llwyr a all ddarparu felly. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawniad polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod, i werthuso tebygolrwydd ac effaith posibl y risgiau hynny, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a chyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd ag arweiniad y Trysorlys.

Saif y cyfrifoldeb am reoli risg ar lefel strategol gyda Bwrdd yr Awdurdod. Mae gan aelodau unigol o'r Tîm Rheoli Gweithredol gyfrifoldeb dros y grwpiau o risgiau sy'n ymddangos ar y gofrestr risg. Cynhwysir ymwybyddiaeth o reoli risg yn yr hyfforddiant sefydlu staff ac yn y rhaglen barhaus o hyfforddiant Cod Ymarfer ar gyfer staff a gynhelir ar draws yr Awdurdod. Mae asesu risg yn rhan annatod o'r broses arfarnu prosiectau. Cyflwynwyd proses i ffurfioli'r trefniadau ar gyfer adrodd ar risgiau strategol allweddol ar wahân gan yr aelod priodol o'r Tîm Rheoli Gweithredol.

Mae Pwyllgor Rheoli Risg yr Awdurdod yn sicrhau bod ymwybyddiaeth o risgiau a'u mesurau rheoli yn cael eu rheoli ar draws yr Awdurdod. Mae ateb rheoli yn bodoli ar gyfer yr holl risgiau a gynhwysir ar gofrestr risg yr Awdurdod. Mae'r gofrestr risg yn

hygyrch i'r holl staff, ynghyd â'r weithdrefn ar sut y mae risgiau newydd a nodwyd yn cael eu trin ac yn cael eu blaenoriaethu yn ôl eu heffaith neu debygolrwydd. Mae angen i atebion rheoli a ddatblygwyd ar gyfer unrhyw risgiau newydd eu nodi gael eu gwirio gan y Pwyllgor Rheoli Risg.

Ar lefel weithredol, mae'r risgiau y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu yn cael eu grwpio i saith maes, sef Pobl, Diogelwch a Diogeledd, Perfformiad, Enw Da, Masnachol, Technoleg Gwybodaeth a Chyfreithiol. Mae pob grŵp yn cynnwys nifer o risgiau unigol a gaiff eu sgorio yn unol â'u heffaith tebygol a'u tebygolrwydd. Rhoddir y sgorau effaith uwch i'r risgiau hynny a fyddai'n arwain at ddifrod parhaol i weithrediad cyfan yr Awdurdod neu i bobl, gan gynnwys diddordebau defnyddiwr y gwasanaeth a'r cyhoedd.

Cydnabyddir y dylai partneriaid rannu nodau strategol yr Awdurdod a bod rhaid i is-gwmnïau gael prosesau cydymffurfio a rheoli risg priodol sy'n gweddu i fframwaith rheoli cyffredinol yr Awdurdod.

Mae cyfrifon cyfunol yr Awdurdod yn cynnwys cyfrifon Cyllid Cymru ccc, is-gwmni dan berchenogaeth lawn yr Awdurdod. Y Bwrdd a Phrif Weithredwr Cyllid Cymru ccc sy'n gyfrifol am y strategaeth rheoli risg yn y sefydliad hwnnw, ac mae Datganiad ar Reolaeth Fewnol ar wahân yn ymddangos yng Nghyfrifon Blynyddol Cyllid Cymru ccc. Caiff trefniadau rheoli risg y cwmni hwnnw eu hintegreiddio i rai'r Awdurdod, cofrestr risg Cyllid Cymru gan gynnwys y risgiau hynny sy'n gyffredin i'r Awdurdod yn ogystal â'r rhai sy'n unigryw i weithrediad y Cwmni hwnnw. Mae dau aelod o Fwrdd yr Awdurdod yn aelodau ar Fwrdd Cyllid Cymru ccc ac mae ei Brif Weithredwr yn adrodd i mi fel aelod o Dîm Rheoli Gweithredol yr Awdurdod, yn ogystal ag i Fwrdd Cyllid Cymru ccc. Mae Cyfarwyddwr Cyllid Grŵp a Phennaeth Cydymffurfiaeth ac Archwilio yr Awdurdod yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio Cyllid Cymru. Adolygir Cyfrifon Cyllid Cymru a chofnodion ei Bwyllgor Archwilio gan Bwyllgor Archwilio yr Awdurdod.

Fel Swyddog Cyfrifo mae'n gyfrifoldeb arnaf i adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol yn yr Awdurdod sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun i sicrhau gwelliant parhaus y system yn ei le. Mae hyn yn cynnwys grwpio risgiau o'r categorïau y soniwyd amdanynt uchod ar lefel strategol.

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio wedi ardystio strategaeth rheoli risg yr Awdurdod. Gwneir adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd trwy'r Pwyllgor Archwilio ar statws y trefniadau rheoli risg yn yr Awdurdod, ac mae angen cymeradwyaeth y Bwrdd ar ddatblygiadau sylweddol. Nid oes problemau sylweddol yn ymwneud â rheolaeth fewnol yn yr Awdurdod.



**Graham Hawker CBE, DL**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo
15 Gorffennaf 2004

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 14 i 49 dan baragraff 8 Atodlen 3 Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'u diwygiwyd trwy ailbrisio asedau sefydlog ac eiddo penodol wedi'u cadw i'w hailwerthu a'r polisïau cyfrifo a nodwyd ar dudalen 20 a 21.

**Cyfrifoldebau'r Awdurdod, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd**

Fel a ddisgrifiwyd ar dudalen 9, yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 a chyfeiriadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed yn ôl y gofynion hynny ac ar gyfer sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Awdurdod a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi'r Rhagair. Caiff fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, eu sefydlu yn ôl statud a'u harwain gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Nodaf fy marn ynglŷn ag a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a ydynt yn cael eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 a'r cyfeiriadau a wnaed yn ôl y gofynion hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r gwariant ac incwm, ym mhob achos perthnasol, wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Nodaf hefyd os, yn fy marn i, nad yw'r Rhagair yn gyson â'r datganiadau ariannol, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol gan ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gam-ddatganiadau amlwg neu anghysonderau sylweddol gyda'r datganiadau ariannol. Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalen 10 ac 11 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth yr Awdurdod ag arweiniad y Trysorlys ar 'Llywodraethu corfforaethol: datganiad ar reolaeth fewnol'. Rwyf yn nodi hynny os nad yw'n bodloni'r gofynion a nodwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rwy'n ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid oes angen i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried a yw Datganiad y Swyddog Cyfrifo ar Reolaeth Fewnol yn ymdrin â'r holl risgiau a rheolyddion. Yn ogystal, nid oes angen i mi roi barn ar effeithiolrwydd

gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod na'i weithdrefnau risg a rheoli.

**Sail Barn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys astudiaeth, ar sail prawf, o dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a chysondeb y trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Yn ogystal, mae'n cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol a wneir gan yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Awdurdod, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a pherfformiais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol i roi'r dystiolaeth ddigonol i mi i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag cam-ddatganiadau sylweddol, boed trwy gamgymeriad, neu drwy dwyll neu anghysondeb arall ac, ym mhob achos perthnasol, bod y gwariant ac incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth ffurfio fy marn, rwyf hefyd wedi arfarnu digonoldeb cyffredinol cyflwyno'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

**Barn**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Awdurdod Datblygu Cymru a'r Grŵp ar 31 Mawrth 2004 ac o'r gorwariant dros incwm, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a llifau arian y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac maent wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 a'r cyfeiriadau a wnaed yn ôl y gofynion hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac

- yn yr holl achosion perthnasol, mae gwariant ac incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau ar y trafodion ariannol hyn.

**John Bourn**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
3 - 4 Plas y Parc
Caerdydd CF10 3DP

16 Gorffennaf 2004

# Incwm a Gwariant Cyfunol
# Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | Nodyn | **2004 £'000** | 2003 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Rhenti eiddo ac incwm cysylltiedig | 2 | **8,194** | 8,834 |
| Gwarged ar werthu eiddo wedi'u cadw i'w hailwerthu | | **22,054** | 21,858 |
| Llog i'w dderbyn ac incwm tebyg | 3 | **4,582** | 4,088 |
| Incwm arall o fuddsoddiadau asedau sefydlog | 4 | **21** | 6 |
| Incwm gweithredol arall yn cynnwys adenillion grant | 5 | **7,862** | 44,652 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **42,713** | 79,438 |
| **Gwariant** | | | |
| Gwasanaethau eiddo | 6 | **17,382** | 10,817 |
| Diffyg ar werthu eiddo wedi'u cadw i'w hailwerthu | | **2,051** | 218 |
| Llog i'w dalu a ffioedd tebyg | 7 | **3,537** | 3,117 |
| Costau rheoli buddsoddiadau eraill | 8 | **5,241** | 5,371 |
| Costau gweinyddu | 9 | **56,001** | 47,649 |
| Gweithgareddau gweithredu eraill | 10 | **76,021** | 68,227 |
| Grantiau a weinyddwyd a chostau cysylltiedig | 11 | **112,581** | 114,654 |
| Diffyg ar ailbrisio eiddo wedi'u cadw i'w hailwerthu | 19 | **28,540** | 11,575 |
| Cyfran colled gweithredu Cronfa Arloesi Cymru Cyf | 23 | **211** | 903 |
| Cost dybiannol ffi cyfalaf | | **10,780** | 15,562 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | **312,345** | 278,093 |
| **Gorwariant dros incwm ar weithgareddau cyffredin cyn treth** | | **(269,632)** | (198,655) |
| Treth | 24 | **-** | - |
| **Gorwariant dros incwm ar weithgareddau cyffredin cyn treth** | | **(269,632)** | (198,655) |
| Diwygiad ar gyfer cost dybiannol cyfalaf | | **10,780** | 15,562 |
| **Gorwariant dros incwm a drosglwyddwyd i gronfeydd** | | **(258,852)** | (183,093) |

# Incwm a Gwariant Cyfunol
# Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 (Parhad)

Roedd gormodedd y gwariant dros incwm a briodolir i weithgareddau'r Awdurdod ei hun yn £253,515,000 (2003 £179,409,000). Mae'r holl ganlyniadau'n ymwneud â gweithgareddau parhaus

| | Nodyn | **2004 £'000** | 2003 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Datganiad o gronfeydd wrth gefn a chyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig** | | | |
| Gorwariant dros incwm ar gyfer y flwyddyn | | **(258,852)** | (183,093) |
| Cymorth Grant | | **233,707** | 245,316 |
| Grantiau Ewropeaidd | 36 | **38,969** | 20,030 |
| Gollwng gwarged gan y Gwasanaethau Datblygu Tir a Chyfreithiol | 30 | **(1,100)** | (1,400) |
| Symud yn y ddarpariaeth ar gyfer ad-dalu Grant | 23 | **7,000** | (30,000) |
| Gwarged heb ei wireddu ar ailbrisio eiddo defnydd eu hunain | | **2,367** | 842 |
| **Cyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn** | | **22,091** | 51,695 |
| Cronfeydd wrth gefn 1 Ebrill | | **262,805** | 211,110 |
| Cyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn | | **22,091** | 51,695 |
| **Cronfeydd wrth gefn 31 Mawrth** | | **284,896** | 262,805 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 48 yn ffurfio rhan o'r Cyfrifon hyn.

# Mantolenni'r Awdurdod a Chyfunol
# 31 Mawrth 2004

| | Nodyn | Awdurdodd | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2004** | 2003 | **2004** | 2003 |
| | | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 15 | **13,562** | 11,936 | **13,917** | 12,252 |
| Buddsoddiadau | 16 | **21,822** | 20,138 | **22,244** | 19,570 |
| Buddsoddiadau mewn mentrau ar y cyd | 17 | **9,023** | 6,424 | **9,023** | 6,424 |
| Morgeisi a benthyciadau eraill | 18 | **3,063** | 3,392 | **3,063** | 3,392 |
| | | **47,470** | 41,890 | **48,247** | 41,638 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Eiddo wedi'u cadw i'w hailwerthu | 19 | **246,519** | 219,587 | **246,519** | 219,587 |
| Dyledwyr | 20 | **51,074** | 64,031 | **50,627** | 63,785 |
| Buddsoddiadau tymor byr | 21 | **0** | 0 | **36,350** | 40,956 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | | **38,163** | 26,119 | **75,449** | 27,751 |
| | | **335,756** | 309,737 | **408,945** | 352,079 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Credydwyr: symiau dyledus o fewn blwyddyn | 22 | **(37,540)** | (23,496) | **(45,351)** | (27,080) |
| **Asedau cyfredol net** | | **298,216** | 286,241 | **363,594** | 324,999 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **345,686** | 328,131 | **411,841** | 366,637 |
| Credydwyr: symiau dyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 22 | **(1,570)** | (1,801) | **(71,449)** | (41,486) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 23 | **(28,862)** | (36,144) | **(30,619)** | (37,690) |
| **Asedau Net** | | **315,254** | 290,186 | **309,773** | 287,461 |

# Mantolenni'r Awdurdod a Chyfunol
# 31 Mawrth 2004 (Parhad)

| | Nodyn | Awdurdodd | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2004** | 2003 | **2004** | 2003 |
| | | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **Ariannwyd gan** | | | | | |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | 25 | **12,922** | 12,658 | **12,922** | 12,658 |
| Cyfalaf benthyg | 26 | **11,955** | 11,998 | **11,955** | 11,998 |
| Cronfa ailbrisio | 27 | **7,433** | 5,066 | **7,433** | 5,066 |
| Cronfa gyffredinol | 27 | **282,944** | 260,464 | **277,463** | 257,739 |
| | | **315,254** | 290,186 | **309,773** | 287,461 |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 20 i 48 yn ffurfio rhan o'r Cyfrifon hyn



**Graham Hawker CBE, DL**
Swyddog Cyfrifo
15 Gorffennaf 2004

# Datganiad Llif Arian Cyfunol
# Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | Nodyn | **2004 £'000** | 2003 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredol** | | | |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredol** | 28 | **(246,953)** | (252,807) |
| **Gwariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol** | | | |
| Derbyniadau o werthu asedau diriaethol a diddordebau mewn mentrau ar y cyd | | **1,464** | 2,107 |
| Ad-daliadau morgeisi a benthyciadau a gafwyd | | **2,168** | 1,486 |
| Taliadau i gaffael asedau diriaethol a diddordebau mewn mentrau ar y cyd | | **(3,132)** | (2,250) |
| Taliadau i gaffael buddsoddiadau ecwiti a gwneud benthyciadau | | **(6,319)** | (8,209) |
| **All-lif arian net o wariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol** | | **(5,819)** | (6,866) |
| **Ariannu a rheoli adnoddau hylifol** | | | |
| Grant Cymorth a gafwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol | | **231,707** | 245,316 |
| Cronfeydd Ewropeaidd a gafwyd | | **44,990** | 17,348 |
| Gollwng gwarged gan y Gwasanaethau Datblygu Tir a Chyfreithiol i'r Cynulliad | | **(1,100)** | (1,400) |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a gafwyd | | **264** | 1,699 |
| Cronfeydd benthyciadau a gafwyd | | **20,046** | - |
| Ad-daliadau cyfalaf benthyg a wnaed | | **(43)** | (82) |
| Prynu a gwerthu buddsoddiadau tymor byr | | **4,606** | 4,822 |
| **Mewnlif arian net trwy ariannu a rheoli adnoddau hylifol** | | **300,470** | 267,703 |
| **Cynnydd mewn arian** | | **47,698** | 8,030 |

# Datganiad Llif Arian Cyfunol
## Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 (Parhad)

| | Nodyn | **2004 £'000** | 2003 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cysoni llif arian net i symudiad mewn dyled net** | | | |
| Cynnydd mewn arian yn ystod y cyfnod | | **47,698** | 8,030 |
| Cyfalaf benthyg a ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn | | **43** | 82 |
| Newid mewn dyled net | | **47,741** | 8,112 |
| Dyled net ar 1 Ebrill | | **15,753** | 7,641 |
| **Dyled net ar 31 Mawrth** | 29 | **63,494** | 15,753 |

Mae’r nodiadau ar dudalennau 20 i 48 yn ffurfio rhan o’r Cyfrifon hyn

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifo

### Sail Cyfrifo

Mae angen i'r cyfrifon hyn, heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, fodloni gofynion cyfrifo a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a'r safonau cyfrifo a gaiff eu cyhoeddi neu eu mabwysiadu gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo mor belled ag y mae'r gofynion hynny'n briodol i'r Awdurdod. Paratowyd y cyfrifon dan y confensiwn cost hanesyddol fel a ddiwygiwyd gan brisiad y farchnad agored o dir ac adeiladau at ei ddefnydd ei hun ac eiddo penodol a gedwir i'w hailwerthu. Mae'r Awdurdod wedi'i eithrio rhag y gofynion o dan Safon Adrodd Ariannol Rhif 3 i lunio nodyn o elw a cholledion cost hanesyddol.

### Cyfuno

Mae'r cyfrifon cyfunol yn ymgorffori canlyniadau is-gwmnïau a mentrau cysylltiedig yr Awdurdod a gyfeiriwyd atynt yn y Rhagair.

Fel a ganiatawyd yn Adran 230(4) Deddf Cwmnïau 1985, ni chaiff cyfrif incwm a gwariant yr Awdurdod ei gyflwyno ar wahân yn y datganiadau ariannol.

### Nawdd

O dan delerau Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd), ariennir yr Awdurdod yn rhannol gan Gymorth Grant gan y Cynulliad a hefyd gan fenthyciadau gan y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol. Credydir y Cymorth Grant cyfan i gronfeydd wrth gefn. Darperir nawdd grant hefyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer prosiectau cyfalaf a refeniw cymhwyso penodol. Credydir yr holl grantiau o'r fath i gronfeydd wrth gefn.

Polisi'r Awdurdod, fel a gydnabyddir yn ei Femorandwm Ariannol a gyhoeddir gan y Cynulliad yw gweithredu'r Uned Gwasanaethau Datblygu Tir a Chyfreithiol ar sail ddynodedig. Caiff canlyniadau ariannol yr Uned Gwasanaethau Datblygu Tir a Chyfreithiol eu datgelu ar wahân yn nodyn 30 y cyfrifon hyn.

### Asedau Diriaethol

Caiff eiddo a ddefnyddir yn llwyr neu'n rhannol at ddefnydd yr Awdurdod ei hun eu dangos yn y fantolen yn ôl gwerth y farchnad agored. Cânt eu hailbrisio'n flynyddol gan briswyr proffesiynol annibynnol. Caiff addasiadau sy'n codi o'r ailbrisiad eu cymryd i gronfa ailbrisio wrth gefn gydag unrhyw leihad parhaol yn cael ei godi'n uniongyrchol o'r cyfrif incwm a gwariant. Mae gwargedau neu ddiffygion sy'n codi wrth gael gwared ar dir ac adeiladau yn deillio trwy gyfeiriad at brisiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol.

Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbrisio oherwydd, yn ôl barn yr Awdurdod, nid yw'r gwahaniaeth rhwng

cost disodli cyfredol net a chost hanesyddol llai dibrisiant yn sylweddol.

### Dibrisiant

Mae dibrisiant ar eiddo a ddefnyddir gan yr Awdurdod yn seiliedig ar y swm a gaiff ei ailbrisio ar ôl ystyried bywyd yr ased sy'n weddill ar adeg y prisiad.

Caiff asedau sefydlog diriaethol eraill eu dibrisio ar sail linol gan roi ystyriaeth i'w bywyd defnyddiol disgwyliedig.

Caiff bywyd asedau eu mabwysiadu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Offer cyfrifiadurol | 3 blynedd |
| Offer eraill, cerbydau a dodrefn | 4 blynedd |

Gwneir cost dibrisiant blwyddyn lawn yn y flwyddyn gaffael. Nid oes tâl yn y flwyddyn gwerthu. O 2003-04 mae'r trothwy cyfalafu ar gyfer offer a dodrefn wedi'i gynyddu i £5,000 o'i lefel flaenorol o £1,000. Caiff offer cyfrifiadurol sy'n is na'r gwerth hwn eu grwpio a'u cyfalafu.

### Eiddo a gedwir i'w hailwerthu

Caiff gwerth tir a gedwir i'w ailwerthu gan yr Uned Gwasanaethau Datblygu Tir a Chyfreithiol ar ddiwedd y flwyddyn ei nodi ar isafswm cost prynu a gwelliannau neu werth gwireddadwy net. Caiff tir ac adeiladau eraill a gedwir gan yr Awdurdod, nad oes eu hangen at ei ddefnydd ei hun ac a gedwir gyda'r bwriad o'u hailwerthu eu nodi yn ôl y gwerth ar y farchnad agored.

### Buddsoddiadau a Buddiannau mewn Mentrau ar y Cyd

Caiff buddsoddiadau eu dangos yn ôl cost, llai darpariaethau ar gyfer lleihad mewn gwerth. Caiff buddiannau mewn mentrau ar y cyd anghorfferedig eu dangos yn yr isafswm cost a symiau adenilladwy, gydag unrhyw ddiffyg yn cael ei godi o'r cyfrif incwm a gwariant. Caiff codiadau dilynol mewn derbynebau disgwyliedig yn y dyfodol eu dwyn i'r cyfrif ar ôl cael eu gwireddu.

### Buddsoddiadau Tymor Byr

Caiff buddsoddiadau tymor byr sy'n cael eu dangos fel asedau cyfredol eu prisio ar yr isafswm cost a gwerth gwireddadwy net.

### Offerynnau Ariannol

Caiff y Grŵp ei eithrio rhag defnyddio dulliau tymor byr o ariannu megis gorddrafftiau banc. Lle ariennir prosiectau trwy fenthyciadau tymor hir, caiff y rhain eu trefnu'n briodol yn unol â bywyd disgwyliedig y prosiect.

Datguddir is-gwmni'r Awdurdod, sef Cyllid Cymru ccc, i risg cyfradd Llog sy'n codi trwy fenthyg gorswm dros newidyn LIBOR (Cyfradd Cynnig Rhwng Banciau Llundain) a benthyg i fusnesau bach a chanolig (SMEs) ar gyfraddau sefydlog. Wrth i gyfrannau benthyg gronni, bydd y risg hwn yn cael ei ddiogelu trwy ddefnyddio contractau cyfradd llog sefydlog, sef cyfnewid cyfradd Llog.

Ym marn yr Awdurdod, nid oes datguddiad sylweddol i risg ar hyn o bryd.

### Gwariant Grantiau

Caiff gwariant grantiau ei gronni a'i godi o'r cyfrif incwm a gwariant ar sail hawliadau grantiau sydd wedi'u derbyn a'u cymeradwyo, mewn perthynas â gwaith a gyflawnwyd hyd at ddyddiad y fantolen.

Mae'r cyfrif yn cynnwys taliadau grant i awdurdodau lleol a allai fod yn destun addasiad pan fydd yr hawliadau archwiliedig terfynol wedi'u derbyn.

### Treth a Threth Ohiriedig
Darperir treth ohiriedig yn llawn ar wahaniaethau amseru sy'n arwain at rwymedigaeth ar ddyddiad y fantolen i dalu mwy o dreth, neu hawl i dalu llai o dreth ar ddyddiad diweddarach, ar gyfraddau y mae disgwyl iddynt fod yn weithredol pan fyddant yn crisialu yn seiliedig ar gyfraddau treth cyfredol a'r gyfraith. Mae gwahaniaethau amseru yn codi o gynnwys eitemau incwm a gwariant mewn cyfrifiadau treth mewn cyfnodau sy'n wahanol i'r rhai sy'n cael eu cynnwys mewn datganiadau ariannol.

Ni chaiff treth ohiriedig ei rhoi ar wahaniaethau amseru sy'n codi yn sgil ailbrisio asedau sefydlog lle nad oes ymrwymiad gorfodol i werthu. Ni chaiff asedau treth ohiriedig a rhwymedigaethau eu diystyru.

### Arian Tramor
Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosglwyddo ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar ddyddiad y trafodyn.

Caiff asedau a rhwymedigaethau mewn arian tramor eu trosglwyddo ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar ddyddiad y fantolen.

Caiff trafodion a throsglwyddiad enillion a cholledion eu credydu neu eu codi o'r cyfrif incwm a gwariant.

### Costau Pensiwn
Caiff y cyfraniadau at Gynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf eu codi o'r cyfrif incwm a gwariant er mwyn lledaenu cost y pensiynau dros fywyd gweithio'r cyflogeion.

### Cost Dybiannol Cyfalaf
Caiff ffi cyfalaf tybiannol sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddir, ac eithrio i'r graddau y caiff Benthyciadau a Chyfalaf Difidend Cyhoeddus eu talu ar wahân, ei gynnwys mewn costau gweithredol. Yn unol ag arweiniad y Trysorlys, cyfrifwyd y ffi ar 3.5% ar gyfer 2003-04 (2002-03: 6%) o'r cyfalaf a ddefnyddir.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

| | 2004 £'000 | 2003 £'000 |
|---|---|---|
| **2. Rhenti eiddo ac incwm cysylltiedig** | | |
| Rhenti gros | **7,484** | 7,128 |
| Incwm amrywiol | **710** | 1,706 |
| | **8,194** | 8,834 |
| **3. Llog sy'n dderbyniadwy ac incwm tebyg** | | |
| Llog sy'n dderbyniadwy | **4,582** | 4,086 |
| Incwm Arall | **-** | 2 |
| | **4,582** | 4,088 |
| **4. Incwm arall o fuddsoddiadau asedau sefydlog** | | |
| Incwm difidend | **8** | 6 |
| Gwarged ar werthiannau ecwiti | **13** | - |
| | **21** | 6 |
| **5. Incwm gweithredol ac adenillion grant eraill** | | |
| Incwm gweithredol arall | **4,584** | 3,138 |
| Grantiau adfachu ac a adenilliwyd | **3,278** | 41,514 |
| | **7,862** | 44,652 |
| **6. Gwariant ar wasanaethau eiddo** | | |
| Cynnal a chadw ystadau | **3,988** | 2,917 |
| Gwarantau rhent | **159** | 167 |
| Rhenti taladwy | **2,130** | 1,851 |
| Symudiad yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion gwael ac amheus | **7,596** | 272 |
| Gwasanaethau ymgynghori a ffioedd proffesiynol | **1,710** | 2,268 |
| Costau gweithredol eraill | **1,799** | 3,342 |
| | **17,382** | 10,817 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

Yn gynwysedig yn y symudiad yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion gwael ac amheus mae darpariaeth dyled wael o £7m mewn perthynas ag ad-dalu'r grant i'r Awdurdod, a gododd yn dilyn cwmni'n methu rhyddhau ei rwymedigaethau o dan delerau'r ddarpariaeth grant. Cyfeirir at y ddarpariaeth hon hefyd yn nodyn 20 y cyfrifon.

Yn ychwanegol, yn ystod y flwyddyn, nododd yr Awdurdod 17 o achosion o ddyledion anadferadwy mewn perthynas a'i weithgaredd gwasanaethau eiddo, yn gwneud cyfanswm o £96,445, sydd wedi'u rhoi gerbron i'w diddymu.

Darparwyd yn llawn ar gyfer yr holl ddyledion i'w diddymu yn y cyfrifon hyn. Caiff cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer diddymu ei cheisio pan fydd yn angenrheidiol.

| | **2004**<br>**£'000** | 2003<br>£'000<br>(Ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| **7. Llog taladwy a chostau tebyg** | | |
| Llog taladwy | **3,537** | 3,117 |
| Dadansoddir llog taladwy a chostau tebyg fel a ganlyn: | | |
| Ar fenthyciadau i'w had-dalu o fewn 5 mlynedd | **6** | 39 |
| Ar fenthyciadau i'w had-dalu ar ôl mwy na 5 mlynedd | **3,531** | 3,078 |
| **8. Costau rheoli buddsoddiad eraill** | | |
| Symudiad yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion gwael ac amheus/lleihad yng ngwerth buddsoddiadau | **1,848** | 2,337 |
| Gwasanaethau ymgynghori a ffioedd proffesiynol | **2,013** | 1,852 |
| Costau gweithredol eraill | **1,380** | 1,182 |
| | **5,241** | 5,371 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

| | | 2004 £'000 | 2003 £'000 (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|
| **9. Costau gweinyddu** | | | |
| Cyflogau, taliadau aelodau a chostau cysylltiedig | | **36,867** | 29,544 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | | **4,122** | 3,791 |
| Gwasanaethau ymgynghori a ffioedd proffesiynol | | **2,133** | 3,112 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | - ffi archwilio blynyddol | **80** | 82 |
| | - ffioedd eraill | **6** | 7 |
| Ffioedd archwilio allanol eraill | | **58** | 42 |
| Costau swyddfa a sefydliad | | **10,602** | 9,041 |
| Dibrisiant | | **2,133** | 2,030 |
| | | **56,001** | 47,649 |
| **10. Gweithgareddau gweithredol eraill** | | | |
| Rhyngwladol | | **2,532** | 2,020 |
| Marchnata | | **27,068** | 21,576 |
| Datblygiad strategol | | **845** | 1,004 |
| Cefnogaeth busnes | | **45,576** | 43,627 |
| | | **76,021** | 68,227 |
| **11. Grantiau a weinyddwyd a chostau cysylltiedig** | | | |
| Adfer tir | | **14,278** | 20,303 |
| Datblygu Trefol a Gwledig (gan gynnwys Grantiau Buddsoddi) | | **22,763** | 22,099 |
| Datblygu eiddo | | **24,258** | 34,048 |
| Cefnogaeth i sefydliadau eraill | | **51,282** | 38,204 |
| | | **112,581** | 114,654 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

| | **2004** **£** | 2003 £ |
|---|---|---|
| **12. Taliadau aelodau'r bwrdd** | | |
| Cadeirydd - Roger Jones OBE | **61,059** | 67,180 |
| Dirprwy Gadeirydd - Trefor Jones CBE, LL | **18,987** | 18,569 |
| Prif Weithredwr - Graham Hawker CBE, DL | **120,016** | 115,313 |
| Un ar ddeg o aelodau rhwng £5,001 a £10,000 (Deuddeg yn 2003) | **92,305** | 96,430 |
| **Cyfanswm y taliadau** | **292,367** | 297,492 |

Mae tâl y Prif Weithredwr o £120,016 yn ymgorffori cyflog sylfaenol o £113,346 a thaliad bonws anghyfunol o £6,670 (2001/02 - £4,461) mewn perthynas â pherfformiad yr Awdurdod ym mlwyddyn ariannol 2002/03.

O 1 Awst 2003 mae'r Cadeirydd wedi'i gontractio i weithio 2.5 diwrnod yr wythnos (3 diwrnod yr wythnos yn flaenorol), gydag aelodau eraill y Bwrdd yn cael eu contractio i weithio rhwng 2 a 5 diwrnod y mis. Mae holl aelodau'r Bwrdd wedi'u contractio i wasanaethu am gyfnod o dair blynedd.

| | **2004** **£'000** | 2003 £'000 |
|---|---|---|
| **Costau:** | | |
| Teithio a Chynhaliaeth | **33** | 39 |
| Lletygarwch a gynigiwyd | **3** | 3 |
| **13. Costau staff** | | |
| Cyflogau | **29,891** | 23,744 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **2,296** | 1,718 |
| Costau pensiwn eraill | **4,391** | 3,535 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm costau staff** | **36,578** | 28,997 |
| | **2004** | 2003 |
| **13. Costau staff (Parhad)** | **Nifer** | **Nifer** |
| Cyfartaledd nifer y cyflogeion yn ystod y flwyddyn | **996** | 850 |
| Crynodeb o niferoedd staff yn ôl categori cyflogaeth ar 31 Mawrth 2004 | | |
| Rhaglenni cyfalaf | **136** | 114 |
| Cefnogaeth busnes | **498** | 437 |
| Rhyngwladol/Marchnata | **158** | 134 |
| Datblygu strategaeth | **29** | 29 |
| Gwasanaethau cefnogaeth rhanbarthol | **98** | 86 |
| Gwasanaethau corfforaethol | **120** | 95 |
| **Cyfanswm** | **1,039** | 895 |

**Staff uwch**

Nid yw staff uwch yr Awdurdod yn Gyfarwyddwyr Cwmni o fewn ystyr y Deddfau Cwmnïau, lle eir i'r afael â "Chod Greenbury" ar ddatgelu tâl etc. Mae staff uwch yr Awdurdod wedi arwyddo contractau cyflogaeth safonol yr Awdurdod nad ydynt yn darparu ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth breifat am eu tâl etc. At hynny, mae gan holl gyflogeion yr Awdurdod hawliau statudol i breifatrwydd o dan y Deddfau Diogelu Data a'r ddeddfwriaeth Hawliau Dynol. O ganlyniad, mae'r staff uwch wedi gwrthod eu caniatâd i gyhoeddi eu manylion preifat, fel a alluogir gan gyfarwyddyd DAO (GEN) 12/00 Trysorlys EM.

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

Mae'r Awdurdod yn credu bod y wybodaeth ganlynol yn rhoi dealltwriaeth drylwyr o fanylion staff uwch.

## 13. Costau staff (Parhad)

**Tîm Rheoli Gweithredol**

Ac eithrio'r Prif Weithredwr, llenwodd y cyflogeion canlynol swyddi Gweithredol, h.y y swyddi rheoli uchaf yn y tîm Rheoli Gweithredol yn ystod 2003-2004.

| | |
|---|---|
| **Childs D A** | Cyfarwyddwr Cyllid Grŵp |
| **Davies G** | Cyfarwyddwr Gweithredol Rhanbarth Canolbarth Cymru |
| **Farrow C J** | Cyfarwyddwr Gweithredol Rhanbarth Gogledd Cymru |
| **Hall G J** | Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Strategol |
| **Harcombe Z** | Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol |
| **Hendy H** | Cyfarwyddwr Gweithredol Adran Ryngwladol |
| **John G** | Cyfarwyddwr Gweithredol Marchnata |
| **King M** | Cyfarwyddwr Gweithredol Rhanbarth De Orllewin Cymru |
| **Leeb G** | Cyfarwyddwr Gweithredol Cefnogaeth Busnes Dros Dro O 22 Mawrth 2004 |
| **Lloyd-Jones S** | Cyfarwyddwr Gweithredol Cefnogaeth Busnes Hyd at 21 Mawrth 2004 |
| **Lloyd-Jones S** | Prif Weithredwr Dros Dro Cyllid Cymru ccc O 22 Mawrth 2004 |
| **Mitten C** | Prif Weithredwr Cyllid Cymru ccc Hyd at 21 Mawrth 2004 |
| **Morgan R** | Pennaeth Llywodraethu |
| **Neal N G** | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Datblygu Tir a Chyfreithiol |
| **Thomas K J** | Cyfarwyddwr Gweithredol Rhanbarth De Ddwyrain Cymru |

Roedd tâl (gan gynnwys, mewn rhai achosion, costau rhannol ar gyfer darparu ceir ar les) deiliaid swyddi Rheoli Gweithredol, ac eithrio'r Prif Weithredwr, fel a ganlyn:

| Ystod tâl | Nifer |
|---|---|
| £0,000 - £9,999 | 1 |
| £60,000 - £69,999 | 1 |
| £80,000 - £89,999 | 10 |
| £90,000 - £99,999 | 2 |

Roedd y trefniadau pensiwn ar gyfer y bobl uchod yr un peth ag ar gyfer cyflogeion eraill yr Awdurdod, a gymerodd ran yng nghynllun pensiwn galwedigaethol yr Awdurdod, fel a ddisgrifir yn nodyn 14 i'r cyfrifon.

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

Mae gan yr holl gyflogeion dros 60 oed ar 31 Mawrth 2004 hawl i godi eu pensiwn cronedig wrth gwblhau cyfnod eu penodiad neu gyflogaeth yn yr Awdurdod.

## 14. Costau pensiwn

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol, sy'n gynllun a ariennir gan gyflogwyr niferus sy'n darparu pensiwn a buddion cysylltiedig ar sail cyflog terfynol. Caiff asedau'r cynllun eu cadw ar wahân i asedau'r Awdurdod ac fe'u gweinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Caiff buddion ymddeol ychwanegol eu rhoi yn unol â Rheoliadau 1982 y Llywodraeth Leol (Iawndal ar gyfer Ymddeoliad Cynnar) a chaiff y buddion hyn eu rhoi ar sail talu wrth fynd.

Cynhelir prisiad actiwari llawn o'r Gronfa bob 3 blynedd, gyda'r prisiad diweddaraf yn cael ei gynnal gan actiwari cymwys fel ar 31 Mawrth 2001 a defnyddiwyd y canlyniadau fel sail ar gyfer asesu costau pensiwn a chyfraniadau'r dyfodol ar gyfer y cynllun hwnnw. Defnyddiwyd y dull rhagamcanu uned actiwari a'r prif dybiaethau actiwari a fabwysiadwyd oedd: cyfartaledd adenillion ar fuddsoddiad o 6.82% y flwyddyn; cynnydd mewn cyflog (heb gynnwys dyfarniadau teilyngdod) o 4.25% y flwyddyn; codiadau pensiwn yn y dyfodol o 2.5% y flwyddyn; twf difidend ar fuddsoddiadau ecwiti o 4.0% y flwyddyn.

Roedd gwerth marchnad asedau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2001 yn £866.4m ac roedd yn ddigonol i dalu am 76% o rwymedigaethau'r Gronfa, gan alluogi ar gyfer codiadau cyflog yn y dyfodol. O ganlyniad, o 1 Ebrill 2002, cododd cyfraniadau pensiwn yr Awdurdod i 265% o'r cyfraniadau sy'n daladwy gan yr aelodau. Roedd cost pensiynau ar gyfer y flwyddyn, ac eithrio'r costau eithriadol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o flynyddoedd ychwanegol ar gyfer rhai ymadawyr, yn dod i £3,968,000.

Bydd sefyllfa ariannol y gronfa'n cael ei hadolygu fel rhan o brisiad pellach yr actiwari ar 31 Mawrth 2004 mewn cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynllun y Llywodraeth Leol, ac arhosir am ei ganlyniad.

Gan fod y cynllun yn un rhwng nifer o gyflogwyr, nid oes modd adnabod cyfran asedau a rhwymedigaethau sylfaenol cyffredinol yr Awdurdod. Gellir cael gwybodaeth bellach am y diffyg yn y cynllun trwy gysylltu â'r adran bensiynau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Tŷ Bronwydd, Porth, Rhondda, CF39 9DL.

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

## 15. Asedau diriaethol

Mae'r Cynulliad wedi gorchymyn y dylai tir ac adeiladau dan berchenogaeth lawn neu rannol yr Awdurdod gael eu cynnwys yn y fantolen yn ôl eu gwerth ar y farchnad agored. Yn unol â hynny, ar 31 Mawrth 2004, cafodd tir ac adeiladau'r Awdurdod eu prisio ar y sail honno gan briswyr annibynnol, gyda chymwysterau addas at y diben ac yn unol â'r nodiadau Arweiniad ar brisio asedau a gyhoeddir gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Cynhaliwyd y prisiad gan Syrfewyr Siartredig King Sturge (RICS).

| | Tir ac adeiladau £'000 | Offer swyddfa a cherbydau £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cost a phrisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2003 | **9,920** | **7,364** | **17,284** |
| Ychwanegiadau | **26** | **1,424** | **1,450** |
| Gwarediadau | **-** | **(1,004)** | **(1,004)** |
| Addasiad ailbrisio | **1,986** | **-** | **1,986** |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **11,932** | **7,784** | **19,716** |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2003 | **-** | **5,032** | **5,032** |
| Cost am y flwyddyn | **381** | **1,752** | **2,133** |
| Gwarediadau | **-** | **(985)** | **(985)** |
| Addasiad ailbrisio | **(381)** | **-** | **(381)** |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **-** | **5,799** | **5,799** |
| **Symiau net ar bapur** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **11,932** | **1,985** | **13,917** |
| Ar 1 Ebrill 2003 | 9,920 | **2,332** | 12,252 |

| Mae'r crynodeb o brisiad tir ac adeiladau fel a ganlyn: | **£'000** |
|---|---|
| Rhydd-ddaliad | 7,507 |
| Prydles Hir | 4,425 |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **11,932** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

| | Awdurdod £'000 | Cyfunol £'000 |
|---|---|---|
| **16. Buddsoddiadau** | | |
| **Cost** | | |
| Ar 1 Ebrill 2003 | **23,395** | **26,092** |
| Ychwanegiadau | **741** | **6,320** |
| Ad-daliadau | **(270)** | **(1,809)** |
| Diddymwyd | **(729)** | **(729)** |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **23,137** | **29,874** |
| **Lleihad mewn gwerth** | | |
| Ar 1 Ebrill 2003 | **3,257** | **6,522** |
| Symudiad mewn Darpariaethau | **(1,213)** | **1,837** |
| Diddymwyd | **(729)** | **(729)** |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **1,315** | **7,630** |
| **Gwerthoedd net ar bapur** | | |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **21,822** | **22,244** |
| Ar 1 Ebrill 2003 | 20,138 | 19,570 |

Cyfanswm y benthyciadau i'w had-dalu o fewn un flwyddyn yw £1,753,528 (2003 - £1,433,649)

Mae'r uchod yn cynnwys buddsoddiad yr Awdurdod ym Mhartneriaeth Ddiwydiannol Cymru, menter gysylltiedig. Mae gwerth net ar bapur budd yr Awdurdod yn y Bartneriaeth a gynhwysir uchod yn dod i £10,565,000.

Yn ystod y flwyddyn, nododd yr Awdurdod 8 achos o fuddsoddiadau anadferadwy mewn perthynas â'i weithgaredd buddsoddi yn dod i gyfanswm o £730,888. Wedi'u cynwys yn y buddsoddiadau anadferadwy hyn y mae dau achos unigol o £105,000 a £450,000, mewn perthynas â buddsoddiadau mewn cwmnïau sydd wedi rhoi'r gorau i fasnachu.

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

| | £'000 |
|---|---|
| **17. Buddiannau mewn Mentrau ar y Cyd** | |
| Ar 1 Ebrill 2003 | **6,424** |
| Trosglwyddiad o eiddo a gedwir i'w hailwerthu (Nodyn 19) | **2,501** |
| Ychwanegiadau | **3,681** |
| Gwarediadau | **(1,348)** |
| Lleihad mewn gwerth – Wedi'i gynnwys yn nodyn 11 | **(2,235)** |
| **Ar 31 Mawrth 2004** | **9,023** |

Mae trosglwyddo o eiddo a gedwir i'w hailwerthu, yn ymwneud â gwerth Menter ar y Cyd a gedwir gan Uned Gwasanaethau Datblygu Tir a Chyfreithiol yr Awdurdod, a nodwyd yn flaenorol yn nodyn 19.

Mae'r buddiannau uchod mewn prosiectau mentrau ar y cyd wedi'u hasesu'n annibynnol gan Syrfewyr Siartredig King Sturge. Mae'r gwerth yn cynrychioli isafswm cost symiau adferadwy, gydag unrhyw ddiffyg yn cael ei godi o'r cyfrif incwm a gwariant. Cynhaliwyd y prosiectau menter ar y cyd yn y prisiad uchod yn y lleoliadau canlynol:

Llanelli Gate, Dafen
Parc Hawtin, Y Coed Duon
Tir yn Dyffryn, Casnewydd
Tir ar Barc Cleppa, Casnewydd
Ysbyty'r Waun, Caerdydd
Ocean Park, Caerdydd
Science Park, Pen-y-bont
Ar Ogwr, Glynderwen, y Coed Duon
Parc Amanwy, Rhydaman
Cwm Tawe
Tir ym Mhillgwenlly, Casnewydd
Y Barri, Bro Morgannwg
Tir yn Rhyd-y-Car, Merthyr
Penrhyndeudraeth, Gwynedd
Cross Hands, Sir Gaerfyrddin
Cyffordd 33 M4
Stryd Commercial, Rhisga

| | **2004 £'000** | 2003 £'000 |
|---|---|---|
| **18. Morgeisi a benthyciadau eraill** | | |
| **Awdurdod a Chyfunol** | | |
| Ar 1 Ebrill | **3,392** | 3,511 |
| Ychwanegiadau | **-** | 145 |
| Ad-daliadau | **(329)** | (264) |
| **Ar 31 Mawrth** | **3,063** | 3,392 |
| Swm yn ddyledus o fewn blwyddyn | **356** | 329 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

| | Uned Datblygu Tir £'000 | Eraill yr Awdurdod £'000 | **2004 Cyfanswm £'000** | 2003 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **19. Eiddo a gedwir i'w hailwerthu** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 70,815 | 148,772 | **219,587** | 181,144 |
| Trosglwyddo i Fentrau ar y Cyd (nodyn 17) | (2,501) | - | **(2,501)** | - |
| Ychwanegiadau | 6,095 | 81,018 | **87,113** | 67,527 |
| Trosglwyddo o Fewn Awdurdod | 1,300 | (1,300) | **-** | - |
| Gwarediadau | (9,651) | (19,489) | **(29,140)** | (17,509) |
| Symudiad yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth | 1,557 | (30,097) | **(28,540)** | (11,575) |
| **Ar 31 Mawrth** | 67,615 | 178,904 | **246,519** | 219,587 |

Mae'r trosglwyddiad o fewn Awdurdod yn cynrychioli prynu Tir ar gost gan yr Uned Datblygu Tir gan Ranbarth Gogledd Cymru'r Awdurdod.

Mae eiddo a gadwyd i'w hailwerthu yn cynnwys peth dir ac amryw o adeiladau lle rhoddwyd opsiynau i'r tenantiaid brynu o fewn cyfnodau amser cyfyngedig penodol ar werth o nid llai na £550,000.

| | Awdurdod | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2004 £'000** | 2003 £'000 | **2004 £'000** | 2003 £'000 |
| **20. Dyledwyr** | | | | |
| **Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | | | |
| Dyledwyr masnach | **8,445** | 6,148 | **8,487** | 6,191 |
| Dyledwyr eraill | **27,668** | 43,097 | **27,105** | 42,761 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **13,601** | 12,747 | **13,673** | 12,786 |
| | **49,714** | 61,992 | **49,265** | 61,738 |
| **Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | | | |
| Dyledwyr eraill | **10** | 14 | **12** | 22 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **1,350** | 2,025 | **1,350** | 2,025 |
| **Cyfanswm dyledwyr** | **51,074** | 64,031 | **50,627** | 63,785 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

## 20. Dyledwyr (Parhad)

Mae dyledwyr eraill wedi'u lleihau gan ddarpariaeth dyled wael o £7m mewn perthynas ag ad-dalu grant yr Awdurdod, a gododd yn dilyn cwmni'n methu rhyddhau ei rwymedigaethau o dan delerau'r ddarpariaeth grant.

Caiff y swm hwn ei gynnwys o fewn gwariant ar wasanaethau eiddo yn nodyn 6 y cyfrifon.

Yn yr un modd, mae'r Awdurodod wedi lleihau'r ddarpariaeth i ad-dalu'r grant hwn i'r Cynulliad, a gaiff ei ddangos o fewn y darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a ffioedd yn nodyn 23. Mae'r wybodaeth gyfatebol sy'n cael ei dangos fel symudiad o fewn y datganiad cronfeydd wrth gefn a chyfanswm yr enillion a cholledion cydnabyddedig ar dudalen 15.

| | Awdurdod | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2004** | 2003 | **2004** | 2003 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **21. Buddsoddiadau tymor byr a gedwir fel asedau cyfredol** | | | | |
| Cronfeydd Buddsoddi | **-** | - | **36,350** | 40,956 |
| | **-** | - | **36,350** | 40,956 |
| **22. Credydwyr** | | | | |
| **Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | | | |
| Taliadau a gafwyd ar y cyfrif | **1,525** | 1,549 | **1,525** | 1,549 |
| Credydwyr masnach | **12,287** | 9,631 | **12,591** | 9,880 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | **40** | 25 | **40** | 25 |
| Credydwyr eraill | **1,589** | 690 | **1,732** | 690 |
| Croniadau | **22,099** | 11,601 | **29,463** | 14,936 |
| | **37,540** | 23,496 | **45,351** | 27,080 |

# Nodiadau i'r cyfrifon (Parhad)

| | Awdurdod | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2004** | 2003 | **2004** | 2003 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **22. Credydwyr (Parhad)** | | | | |
| **Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | | | |
| Credydwyr eraill | **-** | 300 | **44,924** | 25,178 |
| Croniadau | **1,570** | 1,501 | **26,525** | 16,308 |
| | **1,570** | 1,801 | **71,449** | 41,486 |
| **Cyfanswm credydwyr** | **39,110** | 25,297 | **116,800** | 68,566 |

## 23. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a ffioedd

| | Pensiynau Grant | Repayment Innovation Fund Ltd | Cymru | **Cyfanswm** | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Darpariaeth ar 1 Ebrill | 6,144 | 30,000 | 1,546 | **37,690** | 7,128 |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (578) | - | - | **(578)** | (573) |
| Darparwyd yn y flwyddyn / (symiau heb eu ddefnyddio wedi'u gwyrdroi) | 296 | (7,000) | 211 | **(6,493)** | 31,135 |
| **Darpariaeth ar 31 Mawrth** | 5,862 | 23,000 | 1,757 | **30,619** | 37,690 |

Mae darpariaeth y pensiynau a ddygwyd ymlaen yn ymwneud â chyfanswm costau cyn-gyflogeion yn y dyfodol sydd wedi cael hawliau pensiwn blynyddoedd ychwanegol. Cynhwysir hefyd darpariaeth ar gyfer costau pensiwn y Cadeirydd yn y dyfodol, sydd heb eu hariannu eto trwy gynllun y Llywodraeth Leol.

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

| | **2004** | 2003 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **24. Treth a threth ohiriedig** | | |
| **1. Treth ar elw ar weithgareddau cyffredin** | | |
| **(a) Dadansoddiad cost y cyfnod** | | |
| Treth Gyfredol<br>Treth gorfforaethol y DU ar elw am y cyfnod ar 30% | **-** | - |
| | **0** | **0** |
| **(b) Ffactorau sy'n effeithio ar ffi'r dreth am y cyfnod** | | |
| Mae'r dreth a asesir am y cyfnod yn uwch na'r gyfradd safonol o dreth gorfforaeth yn y DU (30%). | | |
| Esbonnir y gwahaniaethau isod: | | |
| Gormod o wariant dros incwm ar weithgareddau cyffredin cyn treth | **(269,632)** | (198,655) |
| Gormod o wariant dros incwm ar weithgareddau cyffredin wedi'i luosi gan gyfradd safonol treth gorfforaethol yn y DU o 30% (2002:30%) | **80,890** | 59,597 |
| Effeithiau: | | |
| (Costau)/incwm heb dreth | **(4,397)** | (12,888) |
| Gwahaniaethau amseru heb eu cydnabod | **1,980** | 1,291 |
| Defnyddio colledion treth | **1,929** | 5,645 |
| Costau eiddo na chaniateir at ddibenion treth | **(9,640)** | (4,424) |
| Cymorth grant wed'i wrthbwyso yn erbyn costau | **(65,802)** | (48,588) |
| Colledion treth heb eu cydnabod mewn treth ohiriedig | **(4,960)** | (1,053) |
| Taliad mewn perthynas â gwerthu asedau sefydlog yn y flwyddyn flaenorol | **-** | 420 |
| **Credyd treth cyfredol ar gyfer y cyfnod (nodyn 1(a))** | **0** | 0 |

**(c) Ffactorau a allai effeithio ar ffioedd treth y dyfodol**

Nid yw treth ohiriedig wedi'i chydnabod mewn perthynas â gwahaniaethau amseru yn ymwneud ag asedau sefydlog o £1m. Nid yw asedau treth ohiriedig ychwaith wedi'u cydnabod mewn perthynas â cholledion yn codi ar renti eiddo o £34m, £2.5m mewn perthynas â chostau rheoli gormodol, £125k mewn perthynas â cholledion ariannol anfansachol a £212k mewn perthynas â gwahaniaethau amseru ar ddarpariaethau. Byddai'r asedau hyn yn cael eu hadfer petai incwm trethadwy'n cael ei dderbyn dros wariant yn y dyfodol mewn perthynas â phob gweithgaredd digonol i amsugno'r colledion hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

| | **£'000** |
|---|---|
| **25. Cyfalaf Difidend Cyhoeddus** | |
| Balans ar 1 Ebrill 2003 | 12,658 |
| Derbyniadau yn ystod y flwyddyn | 264 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2004** | **12,922** |

| | **Cronfa Fenthyciadau Genedlaethol** |
|---|---|
| **26. Cyfalaf Benthyg** | |
| Balans ar 1 Ebrill 2003 | 11,998 |
| Ad-daliadau yn ystod y flwyddyn | (43) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2004** | **11,955** |
| Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 40 |
| Symiau'n ddyledus rhwng 1 a 5 mlynedd | 132 |
| Symiau'n ddyledus ar ôl 5 mlynedd | 11,783 |
| **Cyfanswm** | **11,955** |

Mae angen ad-dalu benthyciadau'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol dros gyfnodau o hyd at 60 o flynyddoedd. Mae ganddynt gyfraddau llog o rhwng 4.75% a 17.25%

| | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus £'000 | Cyfalaf Benthyg £'000 | Cronfa Ailbrisio £'000 | Cronfa Gyffredinol £'000 | **Cyfanswm 2004 £'000** | Cyfanswm 2003 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **27. Symudiad mewn cronfeydd** | | | | | | |
| Enillion a cholledion cydnabyddedig am y flwyddyn | - | - | 2,367 | 19,724 | **22,091** | 51,695 |
| Symudiad mewn cyfalaf | 264 | (43) | - | - | **221** | 1,617 |
| Symud cronfeydd yn y flwyddyn | 264 | (43) | 2,367 | 19,724 | **22,312** | 53,312 |
| Cronfeydd ar 1 Ebrill | 12,658 | 11,998 | 5,066 | 257,739 | **287,461** | 234,149 |
| **Cronfeydd ar 31 Mawrth** | **12,922** | **11,955** | **7,433** | **277,463** | **309,773** | 287,461 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

| | 2004<br>£'000 | 2003<br>£'000 |
|---|---|---|
| **28. Cysoni gorwariant dros incwm i all-lif arian net ar weithgareddau gweithredol** | | |
| Gormod o wariant dros incwm ar weithgareddau cyffredin cyn treth | **(269,632)** | (198,655) |
| Symudiad mewn darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a ffioedd | **(71)** | 562 |
| Dibrisiant | **2,133** | 2,030 |
| Rhyddhau incwm grant gohiriedig | **(2,350)** | (2,285) |
| Lleihad yng ngwerth mentrau ar y cyd | **2,235** | 825 |
| Symudiad yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion gwael ac amheus | **9,444** | 2,609 |
| Cost dybiannol cyfalaf | **10,780** | 15,562 |
| Cynnydd mewn eiddo a gedwir i'w hailwerthu | **(26,932)** | (38,443) |
| Gostyngiad / (Cynnydd) mewn dyledwyr | **16,804** | (41,413) |
| Cynnydd mewn credydwyr | **10,636** | 6,401 |
| **All-lif arian net ar weithgareddau gweithredol** | **(246,953)** | (252,807) |

| | Newid mewn Blwyddyn | Cyfanswm<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **29. Dadansoddi newidiadau mewn dyled net** | | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 47,698 | **75,449** | 27,751 |
| Dyled sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 3 | **(40)** | (43) |
| Dyled sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 40 | **(11,915)** | (11,955) |
| **Cyfanswm** | **47,741** | **63,494** | 15,753 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

## 30. Gwasanaethau Cyfreithiol a Datblygu Tir

Nod yr Uned Gwasanaethau Cyfreithiol a Datblygu Tir yw cefnogi ac annog creu cyfleoedd datblygu mewn sefyllfaoedd ledled Cymru lle ceir anhawster yn y farchnad. Mae'n cynnal ei gweithgareddau trwy gefnogi'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, a thrwy weithredu ar ran timau rhanbarthol yr Awdurdod, yn ôl yr angen, ynghylch gweithgareddau'n gysylltiedig â'r tir, gan gynnwys cynlluniau adfywio trefol. Polisi'r Awdurdod yw gweithredu'r uned gydag arian wedi'i glustnodi, gan greu incwm o waredu safleoedd i'w datblygu yn bennaf.

Mae'r uned Gwasanaethau Cyfreithiol a Datblygu Tir hefyd yn ymgymryd â gwasanaethau cyfreithiol ar ran yr Awdurdod cyfan.

Yn ôl gofynion y Cyfarwyddyd Cyfrifon, nodir isod grynodeb memorandwm o berfformiad ariannol y Gwasanaethau Cyfreithiol a Datblygu Tir am y flwyddyn:

| | **2004**<br>**£'000** | 2003<br>£'000 |
|---|---|---|
| Trosiant | **25,717** | 25,369 |
| Cost Gwerthiannau | **(9,651)** | (6,003) |
| Symudiad yn y ddarpariaeth ar gyfer gostyngiad yng ngwerth stoc | **1,557** | 141 |
| Elw Crynswth | **17,623** | 19,507 |
| Costau gweinyddu (yn cynnwys Ad-daliadau Corfforaethol) | **(5,144)** | (5,649) |
| Elw Gweithredu | **12,479** | 13,858 |
| Llog derbyniadwy | **461** | 314 |
| Llog taladwy | **(48)** | - |
| **Elw Net am y cyfnod** | **12,892** | 14,172 |

Yn ystod y flwyddyn gwnaeth yr uned Gwasanaethau Cyfreithiol a Datblygu Tir daliad o £1,100,000 i'r Cynulliad, a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol ag arian a gafwyd o werthu asedau a etifeddwyd o'r hen Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Dangosir yr ad-daliad hwn fel symudiad yn y datganiad cronfeydd wrth gefn a chyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig ar dudalen 15.

Nid yw'r uchod yn cynnwys cost dybiedig taliad cyfalaf, gan nad yw mantolen ar wahân yn cael ei pharatoi.

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

| | **2004** **£'000** | 2003 £'000 |
|---|---|---|
| **31. Rhwymedigaethau amodol** | | |
| Gwarantau ac ymgymeriadau amodol | 3,050 | 3,705 |
| Rhwymedigaethau amodol eraill | 7,478 | 6,060 |
| **Ar 31 March** | **10,528** | 9,765 |

Mae 'rhwymedigaethau amodol eraill' yn cynnwys yn bennaf y costau potensial sy'n gysylltiedig â symud llygredd daear, a hefyd achosion cyfreithiol yn erbyn yr Awdurdod. Nid yw'r Awdurdod yn ystyried bod unrhyw sail ar gyfer hawliadau cyfreithiol felly.

## 32. Ymrwymiadau cyfalaf

| | | |
|---|---|---|
| Wedi'u contractio ond heb ddarparu ar eu cyfer | **149,369** | 140,123 |

Yn ychwanegol at yr uchod, er 2000/01 bu ymrwymiad contractiol gan yr Awdurdod i dalu £5.1 miliwn y flwyddyn, yn gysylltiedig â'r mynegai, i'r prif gontractiwr sy'n gysylltiedig â phrosiect Bute Avenue (Menter Cyllid Preifat), hyd at fis Tachwedd 2025. Y swm taladwy yn 2003/04 oedd £5,862,613. Trosglwyddwyd y cynllun hwn o Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (CBDC) i'r Awdurdod ym mis Ebrill 2000 fel rhan o ddirwyn CBDC i ben. Mae'n ofynnol i'r partner sector preifat ddylunio, adeiladu a chynnal y rhwydwaith ffordd a elwir yn Bute Avenue am 25 mlynedd, cwblhau gweithiau cysylltiedig a sicrhau a neu ymgymryd â darparu datblygiadau preswyl a masnachol penodedig. Nid oes modd pennu gwerth cyfalaf y cynllun ar hyn o bryd.

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

| | 2004 £'000 | 2003 £'000 |
|---|---|---|
| **33. Prydlesi gweithredol** | | |
| Caiff cyfanswm rhenti'r prydlesi gweithredol sy'n cael ei godi ar y cyfrif incwm a gwariant ei ddadansoddi fel a ganlyn: | | |
| Llogi Cyfarpar | **6** | 5 |
| Prydlesi gweithredol eraill | **4670** | 4179 |
| Caiff yr ymrwymiadau prydlesi gweithredol sy'n dod yn ddyledus o fewn 12 mis eu dadansoddi fel a ganlyn: | | |
| **Tir ac Adeiladau** | | |
| Ymrwymiadau sy'n dod i ben: | | |
| Cyn pen 1 flwyddyn | **297** | 191 |
| Rhwng 1 a 5 mlynedd | **1,269** | 1,295 |
| Ar ôl 5 mlynedd | **2,322** | 1,916 |
| Cyfanswm | **3,888** | 3,402 |
| **Asedau Eraill** | | |
| Ymrwymiadau sy'n dod i ben: | | |
| Cyn pen 1 flwyddyn | **43** | 105 |
| Rhwng 1 a 5 mlynedd | **252** | 122 |
| Cyfanswm | **295** | 227 |

## 34. Terfyn ariannol

Dan Adran 18 o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1997 a chan Offeryn Statudol 1147 (W.82) a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 30 Mawrth 2000, ni ddylai'r cyfanswm arian agregedig sy'n ddyledus gan yr Awdurdod yn wahanol na thrwy log fod yn uwch na'r terfyn o £2,000 filiwn.

Y swm a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2004 oedd **£1,908,153,000** (2003 - £1,719,278,000)

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

## 35. Canlyniadau cwmnïau cysylltiedig

Yn unol â'r cyfarwyddyd cyfrifon, lle mae llog yr Awdurdod yn uwch na 30% o gyfranddaliadau cyffredin a chyfranddaliadau blaen trosadwy cyhoeddedig cwmni a £100,000, rhoddir y wybodaeth ganlynol a gymerwyd o'r cyfrifon blynyddol a archwiliwyd yn fwyaf diweddar.

**Daliadau'r Awdurdod ar 31 Mawrth 2004**

| Enw'r cwmni | Disgrifiad o'r buddsoddiad | Cyfran a ddelir % | Blwydd hyd at | Cyfalaf cyfranddaliadau a chronfeydd wrth gefn £ | Elw/(Colled) am y flwyddyn £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Welsh Development Management Ltd | 1 cyfranddaliad £1 cyffredin | 100 | 31.3.04 | (54) | (4) |
| Cyllid Cymru ccc | 12,500 o gyfranddaliadau £1 cyffredin | 100 | 31.3.04 | (5,468,583) | (2,756,033) |

Mae Cyllid Cymru ccc yn is-gwmni dan berchenogaeth lawn yr Awdurdod. Mae'r golled am y flwyddyn o £2,756k (2003 - £1,400k) a'i gyfalaf cyfranddaliadau a chronfeydd wrth gefn sef (£5,468k) (2003 - (£2,712k), yn cynnwys canlyniadau ei is-gwmnïau dan ei berchenogaeth lawn, Buddsoddiadau Cyllid Cymru Cyf., Buddsoddiadau Cyllid Cymru (2) Cyf., Xénos – Rhwydwaith Angylion Busnes Cyf., yn ogystal â'i gyfran o golled Cronfa Arloesedd Cymru Cyf., cyd-fenter ymgorfforedig.

Mae gan yr Awdurdod fuddiant o 49% mewn ymgymeriad cysylltiedig a elwir yn Bartneriaeth Ddiwydiannol Cymru Cyf. Mae gwerth buddiant yr Awdurdod, a aseswyd yn annibynnol gan King Sturge Chartered Surveyors, yn £10,565,000 ac fe'i cynhwysir yn y Buddsoddiadau yn nodyn 16.

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

| | 2004 £'000 | 2003 £'000 |
|---|---|---|
| **36. Grantiau o Ewrop** | | |
| Darparwyd grantiau'r Undeb Ewropeaidd dan y rhaglenni canlynol | | |
| **Cronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop** | | |
| Rhaglen De Cymru diwydiannol | **(180)** | 237 |
| Rhaglen Cymru Wledig | **(98)** | 315 |
| Amcan 1 | **31,108** | 11,741 |
| Amcan 2 | **3,021** | 542 |
| Interreg | **(28)** | - |
| Mentrau Cymunedol Eraill | **(9)** | 1 |
| Is-gyfanswm | **32,814** | 12,836 |
| **Cronfa Arweiniad a Gwarant Amaethyddol Ewrop** | | |
| Rhaglen Cymru Wledig | **-** | 356 |
| Amcan 1 | **3,603** | 5,594 |
| Is-gyfanswm | **3,603** | 5,950 |
| **Cronfa Gymdeithasol Ewrop** | **2,184** | 915 |
| **Mentrau Ewropeaidd Eraill** | **368** | 329 |
| | **38,969** | 20,030 |
| Defnyddiwyd y derbyniadau hyn at y gweithgareddau canlynol: | | |
| Datblygu eiddo | **11,640** | 954 |
| Adfer tir | **(305)** | (32) |
| Datblygu gwledig | **285** | 226 |
| Cymorth busnes | **27,349** | 18,882 |
| | **38,969** | 20,030 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

## 37. Trosglwyddo'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth

Ym mis Mai 2003, gofynnodd Gweinidog y Cynulliad dros Ddatblygiad Economaidd fod yr Awdurdod yn cymryd cyfrifoldeb am y Gronfa Datblygu Gwybodaeth (KEF), cronfa a sefydlwyd i annog entrepreneuriaeth ac arloesedd mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru. Roedd y Gronfa hon yn cael ei rheoli'n flaenorol gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb ar 14 Ionawr 2004, ac erbyn hynny roedd Cam 1 o Raglen KEF wedi'i gwblhau'n sylweddol. Cytunwyd felly ar drefniant i reoli Cam 1 rhwng yr Awdurdod a'r ddau Gyngor, y mae'n ofynnol o'i herwydd i'r Awdurdod weinyddu'r elfennau sy'n weddill o Gam 1 ar ran y Cynghorau nes ei gwblhau; er mai Swyddogion Cyfrifo'r Cynghorau sy'n gyfrifol am Gam 1 yn y pen draw o hyd. O'r dyddiad trosglwyddo, aeth y cyfrifoldeb am weithredu, cyflwyno a chwblhau Cam 2 yn ei gyfanrwydd i'r Awdurdod.

O ganlyniad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb, roedd hawl gan yr Awdurdod i gael £4,248,586 yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys: £3,152,309 mewn Cymorth Grant ychwanegol; £572,691 o arian grant o Ewrop yr oedd y ddau Gyngor yn ei gael yn flaenorol; a £523,586 yn ddyledus o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Roedd yr arian hwn i fod i gwmpasu holl ymrwymiadau KEF a wnaethpwyd gan y ddau Gyngor a oedd yn dal yn ddyledus hyd 31 Mawrth 2004. Os bydd unrhyw ddiffyg, bydd y Cynghorau'n ad-dalu'r Awdurdod.

Mae'r ymrywmiadau ariannol a nodir yn y Cytundeb Trosglwyddo wedi'u dwyn i gyfrif yn y datganiadau ariannol hyn. Pan gwblhawyd y cyfrifon hyn, roedd prosiectau sy'n cael cymorth grantiau o Ewrop heb dderbyn tystysgrifau archwilio. Pan fydd y ffigurau hyn wedi'u hardystio, caiff unrhyw newidiadau eu hymgorffori i fantolenni 2004-05.

## 38. Newport Unlimited

Cwmni preifat cyfyngedig trwy warant yw Newport Unlimited sy'n cael cymorth ariannol a chefnogaeth aelod Bwrdd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyngor Tref Casnewydd a'r Awdurdod (y budd-ddeiliaid).

Amcanion y cwmni yw datblygu a sicrhau adfywiad yn yr amgylchedd ffisegol a chryfhau economi ardaloedd penodol o'r ddinas a lleoliadau eraill yng Nghasnewydd. Mae'r cwmni'n pennu polisi strategol ar gyfer adfywio Casnewydd, ond nid yw'n gwneud trafodion ar ei ran ei hun. Yn lle hynny, bydd cyfraniadau at raglenni refeniw a chyfalaf yn cael eu defnyddio gan y budd-ddeiliaid perthnasol.

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

## 38. Newport Unlimited (Parhad)

Fel y cyfeiriwyd ato yn y rhagair, mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys trafodion a wnaeth yr Awdurdod yn rhinwedd ei swyddogaeth fel un o dri budd-ddeiliad Cwmni Adfywio Trefol Casnewydd, sy'n masnachu dan yr enw Newport Unlimited.

Ceir crynodeb isod o gymorth ariannol yr Awdurdod, gan gynnwys y cyfraniad a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a gynhwysir yn y cyfrifon hyn.

| | **2004 £'000** | 2003 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm gweithredol amrywiol | **155** | 107 |
| **Costau cyfalaf** | | |
| Caffael tir | **810** | 4,941 |
| Gweithiau Cyfalaf | **483** | - |
| Cyfarpar TG | **21** | 62 |
| **Cyfanswm** | **1,314** | 5,003 |
| **Costau refeniw** | | |
| Cyflogau | **323** | 121 |
| Teithio a Chynhaliaeth | **9** | 2 |
| Swyddfa a'r Sefydliad | **116** | 48 |
| Ffïoedd ymgynghori/proffesiynol | **1,116** | 13 |
| Amrywiol | **315** | 373 |
| **Cyfanswm** | **1,879** | 557 |

Mae gwerth net ar bapur yr eiddo a oedd ganddo i'w ailwerthu ar 31 Mawrth 2004 (nodyn 19) yn cynnwys £6.4m o asedau cyfalaf mewn perthynas â'r trafodion uchod.

Mae Nic Neal a Karen Thomas, aelodau o Dîm Rheoli Gweithredol yr Awdurdod, yn Gyfarwyddwyr an-weithredol yn Newport Unlimited.

# Nodiadau i'r Cyfrifon (Parhad)

## 39. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn Gorff Cyhoeddus a noddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ystyrir y Cynulliad yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn cafodd yr Awdurdod nawdd gan y Cynulliad ar ffurf Cymorth Grant a Chyfalaf Difidend Cyhoeddus.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth yr Awdurdod drafodion materol gydag endidau eraill y mae'r Cynulliad yn noddwr iddynt, sef;

Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant
Bwrdd Croeso Cymru

Hefyd, cwblhaodd yr Awdurdod y trafodion ariannol canlynol gyda chyrff y datganodd yr aelodau Bwrdd a'r Uwch aelodau staff canlynol ddiddordeb ynddynt, ac yr ystyrir eu bod yn berthnasol.

**Trafodion gyda chyrff eraill y sector cyhoeddus neu sefydliadau di-elw lle mae gan Uwch aelodau staff neu aelod o Fwrdd yr Awdurdod ddiddordeb.**

Yn ystod y flwyddyn, darparodd yr Awdurdod £36,136 o arian craidd i Bartneriaeth Canolbarth Cymru. Mae Roger Jones yn Is-Gadeirydd y bartneriaeth ac mae Dr Geraint Davies yn aelod o Grŵp Prif Weithredwr a Llywio a Grŵp Strategaeth a Pholisi y Bartneriaeth.

Yn ystod y flwyddyn, talodd yr Awdurdod £13,361 i Sefydliad Cyfarwyddwyr Cymru. Mae Roger Jones yn aelod o fwrdd Sefydliad Cyfarwyddwyr Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, darparodd yr Awdurdod £6,403,935 o arian craidd i Gyllid Cymru ccc, is-gwmni dan berchenogaeth lawn yr Awdurdod. Mae Trefor Jones a David Williams yn gyfarwyddwyr Cyllid Cymru ccc. Roedd Colin Mitten yn Brif Weithredwr Cyllid Cymru ccc hyd at 21/03/04. Daeth Sian Lloyd Jones yn Brif Weithredwr Dros Dro Cyllid Cymru o 22 Mawrth 2004.

Yn ystod y flwyddyn, darparodd yr Awdurdod £599,483 mewn arian grant i Ganolfan Gydweithredol Cymru Cyf. Mae Tyrone O'Sullivan a Jim Hancock yn aelodau o fwrdd rheoli Canolfan Gydweithredol Cymru Cyf.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth yr Awdurdod gyfraniadau o £33,650 i Fusnes yn y Gymuned. Mae Janet Reed yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol Busnes yn y Gymuned.

Yn ystod y flwyddyn, darparodd yr Awdurdod nawdd o £122,628 i Ganolfan Ewropeaidd Cymru Cyf. Mae Gareth Hall yn gyfarwyddwr Canolfan Ewropeaidd Cymru Cyf.

Y Cynghorydd Noel Crowley yw arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Yn ystod y flwyddyn, darparodd yr Awdurdod £1,747,621 mewn arian grant i'r Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn, talodd yr Awdurdod gyfanswm o £12,904 i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae Dr Geraint Davies yn aelod o'r Cyngor a'r Llys Llywodraethwyr ar gyfer Prifysgol Cymru, ac yn aelod o Banel Ymgynghorol Gregynog.

# Notes to the Accounts (Continued)

### 39. Trafodion Partïon Cysylltiedig (Parhad)

Yn ystod y flwyddyn, talodd yr Awdurdod gyfanswm o £814,478 i Goleg Prifysgol Cymru Bangor. Mae Chris Farrow yn aelod o Lys y Brifysgol ac yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol Rhanbarthol yr Ysgol Fusnes. Mae Gareth Evans hefyd yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol Rhanbarthol yr Ysgol Fusnes.

Yn ystod y flwyddyn, darparodd yr Awdurdod £3,359,253 o gymorth i Gwpan Ryder Cymru (2010) Cyf. Mae David Williams a Gareth John yn Aelodau Bwrdd Cwpan Ryder Cymru (2010) Cyf.

**Trafodion gyda'r sector preifat, lle mae gan aelod o Fwrdd yr Awdurdod ddiddordeb.**

Yn ystod y flwyddyn, talodd yr Awdurdod gyfanswm o £103,400 i S4C. Mae Roger Jones yn aelod o fwrdd Awdurdod S4C.

Yn ystod y flwyddyn, gwariodd yr Awdurdod £775,484 mewn rhenti a chostau gwasanaeth i Gymdeithas Adeiladu Principality. Mae David Williams yn aelod o fwrdd Cymdeithas Adeiladu'r Principality.

Yn ystod y flwyddyn, darparodd yr Awdurdod £440,611 mewn arian grant i Hufenfeydd De Arfon Cyf. Roedd Gareth Evans yn Brif Weithredwr Hufenfeydd De Arfon Cyf.

Yn ystod y flwyddyn, darparodd yr Awdurdod £136,678 mewn grantiau i Enfis Cyf. Mae Simon Gibson yn gyfarwyddwr an-weithredol Enfis Cyf.

# Crynodeb Pum Mlynedd

| | **2004 £'000** | 2003 £'000 | 2002 £'000 | 2001 £'000 | 2000 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm a Gwariant** | | | | | |
| Incwm | **42,713** | 79,438 | 33,752 | 30,286 | 27,313 |
| Gwariant | **312,345** | 278,093 | 208,374 | 146,587 | 160,007 |
| **Asedau Sefydlog (ar ddiwedd y flwyddyn)** | | | | | |
| Asedau diriaethol | **13,917** | 12,252 | 10,873 | 9,422 | 8,374 |
| Buddsoddiadau | **22,244** | 19,570 | 14,902 | 4,104 | 2,888 |
| Diddordebau mewn cyd-fentrau | **9,023** | 6,424 | 9,151 | 10,374 | 11,261 |
| **Eiddo i'w Ailwerthu** | **246,519** | 219,587 | 181,144 | 175,209 | 168,025 |
| **Nawdd** | | | | | |
| Cymorth Grant y Cynulliad Cen | **233,707** | 245,316 | 171,282 | 109,975 | 114,812 |
| Ffynonellau Ewropeaidd | **38,969** | 20,030 | 14,838 | 12,362 | 3,611 |

Mae gwariant yr Awdurdod yn cynnwys ffïoedd a dalwyd i ymgynghorwyr. Mae rhestr o ymgynghorwyr y dyfarnwyd contractau iddynt a oedd dros gyfanswm o £25,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn swyddfa gofrestredig yr Awdurdod: Tŷ Principality, Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd, CF10 3FE.

# Nodiadau

**Prif Swyddfa**
Plas Glyndŵr
Ffordd y Brenin
Caerdydd
CF10 3AH
Cymru

Ffôn 08457 775566 o fewn y Deyrnas Gyfunol neu +44 1443 845500 o leoliadau tramor.

Dylai Defnyddwyr Testun yn y DG ddefnyddio blaenddodiad 18001 ar gyfer cyfleuster RNID Typetalk, dylai defnyddwyr tramor ddeialu +44 151 4941260.

E-bost: ymholiadau@wda.co.uk
www.wda.co.uk

**Swyddfeydd Rhyngwladol**

**Awstralia**
Ffôn: + 612 8211 0657
Ffacs: + 612 8211 0555

**Canada - Ottawa**
Ffôn: + 1 613 692 1172
Ffacs: + 1 613 692 2727

**Canada - Toronto**
Ffôn: + 1 416 979 4610
Ffacs: + 1 416 204 1939

**China - Beijing**
Ffôn: (86 10) 8525 1111 326
Ffacs: (86 10) 8525 1111 340

**China - Shanghai**
Ffôn: (86 10) 5111 9185
Ffacs: (86 10) 5252 4616

**Yr Eidal**
Ffôn: + 39 02 8515 5296
Ffacs: + 39 02 8515 5301

**Ffrainc**
Ffôn: + 331 4217 9131
Ffacs: + 331 4217 9132

**Hong Kong**
Ffôn: + 852 2297 2888
Ffacs: + 852 2297 0066

**India**
Ffôn: + 91 124 254 9191

**Yr Iseldiroedd**
Ffôn: + 312 0658 6236
Ffacs: + 312 0658 6684

**Iwerddon**
Ffôn: + 353 1664 1518
Ffacs: + 353 1664 1809

**Japan**
Ffôn: + 813 3459 0805
Ffacs: + 813 3459 0806

**Korea**
Ffôn: + 822 3782 4740
Ffacs: + 822 3782 4555

**Taiwan**
Ffôn: + 8862 2547 3616
Ffacs: + 8862 2546 1935

**DG - Llundain**
Ffôn: 0207 877 0470
Ffacs: 0207 877 0473

**Unol Daleithiau - California**
Ffôn: + 1 415 627 0700
Ffacs: + 1 415 627 0708

**Unol Daleithiau - Illinois**
Ffôn: + 1 312 274 3700
Ffacs: + 1 312 274 1022

**Unol Daleithiau – Efrog Newydd**
Ffôn: + 1 646 792 8911
Ffacs: + 1 646 792 8940

I weld yr Adroddiad Blynyddol hwn ar-lein ac islwytho adrannau ohono ymweler â'n gwefan yn http://www.wda.co.uk

**Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael mewn print bras, Braille ac ar ffurf sain. Cysyllter â ni am wybodaeth bellach.**